Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 55** **Gwanwyn 2021**




(Llun: Greg Rosenke, Unsplash)

# Cyfrinach

Aeth bron i bedair blynedd heibio ers i mi gael y fraint o arwain gwasanaeth am y tro cyntaf yng nghapeli'r Ofalaeth. Bellach dwi'n meddwl y gallaf ddatgelu rhywbeth amdanaf fy hun i chi. Felly, gobeithio y medrwch chi gadw cyfrinach.

A dyma'r gyfrinach.

Os rhowch chi saws i mi mewn potel, dwi'n medru coginio cyrri neu *chili con carne*, neu bryd o fwyd Eidalaidd gystal ag unrhyw un arall! Cyw iâr heno? Dim problem. Os daw'r saws o'r botel, yn barod i'w dywallt dros y cynhwysion eraill i gyd.

Wrth edrych am botel hud a'i chynhwysion parod y dydd o'r blaen, sylwais ar yr addewid a gaed gan wahanol gwmnïau ar wahanol gynnyrch. Tystiai un botel o saws tomato y medrai ei gynnwys *Originale Italiano* fy ngalluogi i ailgynhyrchu'r 'authentic Italian flavours' a ffafrir yn Napoli. Tystiai potel arall fod ei chynnwys yn llawn o berlysiau a sbeisys Indiaidd er mwyn i mi baratoi 'authentic Indian curry'. Ar bob llaw, mae cwmnïau'n ceisio cynnig rhywbeth 'authentic', sef 'blas go iawn', 'gwir', 'o'r iawn ryw' mewn potel.

Er yr addewidion, fe wyddom, hyd yn oed wrth agor y botel, mai blas 'go iawn' wedi ei ddofi ar gyfer blas pobl Orllewinol yw'r saws cyrri. Y 'go iawn' wedi ei dymheru a gawn, yr 'iawn ryw' ail law.

****

Tybed nad yw'r hyn a welwn ar silffoedd ein harchfarchnadoedd yn cyfarch ein syched dyfnaf am yr hyn sy'n real, sydd 'go iawn' ac 'o'r iawn ryw'?

Hyd yn oed yn ein byd seciwlar, cymhleth, aml-grefyddol ni, yng nghanol y lleisiau sy'n mynnu'n sylw, onid ydym yn dyheu am air, neu addewid, y gallwn bwyso arno 'go iawn'? Wedi clywed yr addewidion na ellir eu gwireddu a wneir gan rai gwleidyddion, y cyhuddiadau o 'newyddion ffug' ar y cyfryngau, onid ydym fel hil yn dyheu am yr hyn sydd yn wir 'go iawn'?

Ond efallai ein bod, yr un pryd, yn amheus o'r peth 'go iawn'. Un peth yw bwyta cyrri o botel yng Nghymru. Peth arall yw bwyta pryd tanllyd yn yr India!

Weithiau, byddai'n hyfryd pe medrem agor 'potel grefyddol' o saws ysbrydol go iawn a'i arllwys dros ein bywydau. Siawns na fyddai ei flas, er ei fod wedi ei addasu a'i ddofi, yn ddeniadol ac yn cwrdd â'n gofynion?

Ac rydym oll yn gwybod am brofiadau ysbrydol oedd yn honni bod yn brofiadau 'go iawn' ond a'n gadawodd yn syth gan adael ar eu holau ymdeimlad bod rhywbeth annigonol yn ei flas. Bod realiti tragwyddol ar goll.

Mae Iesu'n ein gwahodd i adnabod 'y blas go iawn'. Meddyliwch faint o weithiau y darllenwn amdano'n cyflwyno rhyw ddywediad o'i eiddo gyda'r geiriau, 'Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthych ...' Nid 'gwirionedd' byd yr hysbysebion nac addewid o realiti wedi ei ddofi yw ei air i ni. Na, meddai. Y gwir yw hyn: m**yfi yw** … y Bara yr ydych yn ei chwennych, y drws i fywyd tragwyddol; myfi yw'r bugail da na wnaiff gefnu arnoch pan ddaw bleiddiaid eich ofnau atoch; myfi, meddai, yw'r Goleuni sy'n goleuo popeth arall, yr Atgyfodiad a'r bywyd ynddo'i hun. Myfi yw'r bywyd gwir a'r ffordd a'r gwirionedd.

Ohono ef y mae popeth y deisyfwn yn tarddu ac ar wahân iddo anniddig fydd ein calonnau oni chawn ein cyffwrdd a'n meddiannu ganddo.

Wrth ddathlu'r Pasg eleni, ac wrth i ni ddechrau cynllunio bywyd ein capeli i'r dyfodol wedi'r clo, gadewch i ni roi ein bryd ar geisio a darganfod yr hwn a 'roddodd i mi flas ar fyw', a gydiodd ynom drwy ei Ysbryd Glân, a lanwodd ein gwefusau â'i fawl.

Efallai y bydd gweddïo Gweddi Sant Richard o Chichester o gymorth inni:

> Diolch fo i ti, Arglwydd Iesu Grist, am yr holl fanteision a roddaist i ni; ac am yr holl boenau a sarhad a ddioddefaist drosom ni.
>
> O Waredwr mwyaf trugarog, fy nghyfaill a'm brawd,
> boed i mi dy adnabod yn gliriach, dy garu'n anwylach,
> a'th ddilyn yn agosach, o ddydd i ddydd. Amen.

*Watcyn James*

**Llongyfarchiadau calonnog:**
**i Watcyn a Lowri James ar enedigaeth ŵyr,**
**Gruffudd, mab bach i Esyllt a Tom,**
**a gorwyr i Ann James – a llongyfarchiadau iddi hithau ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed**

**Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at nifer o aelodau eglwysi'r ofalaeth sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y misoedd diwethaf hyn, sy'n cael triniaeth ar hyn o bryd, neu'n wynebu triniaeth yn y cyfnod sydd i ddod. Hyderwn y cewch nerth a chysur yr Efengyl yn gymorth hawdd ei gael yn y cyfnod anodd a heriol hwn.**

## Capel y Garn

Llongyfarchiadau calonnog:
i Osian Penri ac Erwain Alaw
ar enedigaeth merch fach, Betsan Alaw,
wyres gyntaf i Penri a Llio James,
a gorwyres gyntaf Erddyn a Gwenda James

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf:
â Gillian a Heather, a theulu'r
diweddar Robin Evans, Dôl-werdd,

ac â Heledd Ann, Catrin a Mabli
a theulu'r ddiweddar Gaenor Hall, Minafon

# Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

Gan fod y sefyllfa o ran Covid-19 yn dal yn ansicr, byddwn yn parhau i gynnal yr oedfaon a'r ysgol Sul dros Zoom am y tro: yr oedfa am 10 ar fore Sul, a'r ysgol Sul yn dilyn am 11 o'r gloch. Mae gwahoddiad **i bawb** i ymuno yn y gwasanaethau hyn – mae Zoom yn hawdd iawn i'w ddefnyddio ac ar gael ar gyfrifiadur, ar dabled (iPad &c) a hefyd drwy'r ffôn. Felly, rhowch gynnig arno – anfonwch air at y Gweinidog am fanylion.

Ond edrychwn ymlaen at gael cyfle i fynd yn ôl i gydaddoli yn ein heglwysi cyn gynted ag y bydd yn ddiogel inni wneud hynny.

Bydd y Gweinidog a'r swyddogion yn adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd, ac os bydd modd inni ddod at ein gilydd i gydaddoli yn adeiladau'r capeli, byddwn yn eich hysbysu o'r trefniadau yn y dulliau arferol.

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter: @capelygarn

| | |
|---|---|
| 2 Ebrill | Dydd Gwener y Groglith<br>'Salm a Chân a Chroes'<br>oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>dros Zoom am 10 o'r gloch |
| 4 Ebrill | Dydd Sul y Pasg<br>oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog<br>dros Zoom am 10 o'r gloch |
| 26 Ebrill | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>dros Zoom am 7.30 o'r gloch |
| 23 Mai | Sul y Pentecost<br>oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch<br>– y trefniadau i'w cadarnhau |

# Tudalen y Plant



Dyma lun o Mair yn chwifio'i breichiau'n hapus ar ôl gweld Iesu yn yr ardd ar fore'r Pasg. Lliwiwch y llun mewn lliwiau hapus a llachar i ddangos eich bod chithau hapus o weld y gwanwyn, ac yn mwynhau gweld y blodau yn yr ardd a'r dail ar y coed.

Yn y gwanwyn, mae'r adar hefyd yn canu wrth iddyn nhw fynd ati i adeiladu eu nythod. Ydych chi'n gwybod beth yw enw'r aderyn sy'n gwneud y sain 'cw-cw', tybed? Mae'r pennill yma'n sôn am adar yn canu yn y gwanwyn ym myd hardd Duw:

> Y mae Duw yn neffro'r gwanwyn,
> ef yw awdur popeth byw,
> a chyhoedda miwsig adar
> yn y coed mai da yw Duw.



Mae taflenni, fideos, adnoddau a gweithgareddau eraill i'r teulu i gyd ar thema'r Pasg ar gael ar wefan Cymdeithas y Beibl: www.biblesociety.org.uk.

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

Os ydych chi'n gwybod am unrhyw blant fyddai'n mwynhau'r cyfle i ymuno â sesiynau bywiog yr ysgol Sul am 11 o'r gloch dros Zoom ar fore Sul, anfonwch air at y Gweinidog, y Parch Watcyn James. Croeso cynnes i bawb.

O Arglwydd y gwanwyn, anadla drwy'r tir
a deffro ein daear o gwsg sydd mor hir,
boed gwres anorchfygol dy gariad dy hun
yn ffrwydro gorfoledd yng nghalon pob un.

Dy nerth ar ein daear, O Arglwydd y wyrth,
ddeisyfwn i dreiglo y meini o'r pyrth,
dy nerth i gyfannu rhwygiadau yr oes,
y nerth a goncwerodd waradwydd y groes.

Llewyrcha, O Arglwydd, oleuni dy ffydd
i symud ffôl rwystrau ein bywyd bob dydd,
i aileni'r cariad a buraist drwy boen
a'i wrid yn disgleirio tangnefedd yr Oen.

O ffynnon dy glwyfau daioni a dardd
mor fywiol ei ffrydiau â'r chwŷs yn yr ardd;
dros grastir ein bywyd, O Arglwydd yr had,
llifeiried dy wanwyn yn ddwyfol fywhad.

*Vernon Jones (Caneuon Ffydd, rhif 110)*

# Addoli o Sul i Sul yng nghyfnod y clo

Diolch i dechnoleg cyfathrebu a meistrolaeth ein gweinidog arni, mae aelodau o gynulleidfaoedd Gofalaeth y Garn a'u cyfeillion wedi llwyddo i weld wynebau ei gilydd a chydrannu o'r un danteithion seinyddol a gweledol, os nad gastronomegol, yn gyson dros dri mis cyntaf y flwyddyn.

Mae oedfaon boreol y Sul am 10 o'r gloch wedi parhau i ddarparu man cyfarfod a chyfeillach gynnes i lawer o aelodau'r ofalaeth, gydag ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Y gweinidog sy'n arwain y gwasanaeth fel rheol, ond ar y Sul olaf cyn Gŵyl Ddewi Dr Rhidian Griffiths fu'n tywys ein meddyliau, ac ar y Sul cyntaf o fis Mawrth seiliwyd yr oedfa ar wasanaeth Dydd Gweddi'r Byd.

## Dydd Gweddi'r Byd


Dydd Gweddi Merched y Byd oedd yr enw blaenorol ar yr ŵyl hon, sy'n digwydd yn flynyddol ar ddydd Gwener cyntaf mis Mawrth oddi ar ddiwedd y 19eg ganrif. Bu'n arfer gan Gymdeithasau Chwiorydd gwahanol gapeli ac eglwysi ardal ddod at ei gilydd i ddathlu'r ŵyl, yn yr wybodaeth bod merched Cristionogol ym mhob rhan o'r byd yn gwneud yr un peth ar yr un diwrnod. Byddai merched gwlad benodedig yn cael eu gwahodd i lunio sgript weddus fyddai'n cynnwys gweddïau a myfyrdodau ynghyd â gwybodaeth am eu hamgylchiadau a'u harferion diwylliannol, a dyna fyddai sail y gwasanaeth. Bellach mae'r dathliad yn cynnwys pawb, yn wrywod a menywod. Dan amgylchiadau eleni, meddyliodd ein gweinidog mai gweddus fyddai defnyddio'r gwasanaeth, a oedd wedi ei llunio gan Ferched Cristnogol Vanuatu, ar gyfer gwasanaeth boreol yr Ofalaeth ar 7 Mawrth. Y teitl oedd 'Adeiladwch ar Sylfaen Gadarn'. Cafwyd gwasanaeth syber ac urddasol.

## Vanuatu

Clwstwr o bedwar ugain o ynysoedd yn ne-orllewin y Môr Tawel, dros 2000 o filltiroedd i'r dwyrain o Awstralia, yw Vanuatu. Er bod yr ynysoedd yn agored i stormydd trofannol cyson, daeargrynfeydd, seiclonau, tswnamïau a ffrwydriadau folcanig, mae'r traethau tywod du a gwyn, y riffiau cwrel a'u pysgod lliwgar, eu hadar prydferth, ffrwythau a chnau eu fforestydd, i gyd yn gwneud yr ynysoedd yn amgylchedd dilychwin. Gan ei bod hi mor bell i'r dwyrain hi yw un o'r gwledydd cyntaf i ddechrau gweddio ar y Dydd Gweddi.

Ers llawer dydd byddai pob un o'r ynysoedd yn annibynnol, gyda'i phennaeth a'i llywodraeth a'i harferion diwylliannol a'i hiaith ei hunan. Wedi i anturiaethwyr morwrol o'r gorllewin 'ddarganfod' yr ynysoedd yn y 17eg ganrif, dechreuodd pobl o Ewrop, yn genhadon a masnachwyr a phobl oedd yn chwilio am lafur rhad, fynd yno, ac yn raddol newidiodd eu ffordd o fyw. Prydeinwyr a Ffrancwyr oedd y ddau brif grŵp Ewropeaidd i ymsefydlu yno, ac erbyn 1887 roedd gweinyddiaeth yr ynysoedd yn cael ei rhannu rhwng y ddwy wlad honno. Ffurfiolwyd y drefn yn 1906 ac felly y bu nes i Vanuatu ennill ei hannibyniaeth ar 30 Gorffennaf, pan fabwysiadwyd baner a chyfansoddiad iddi, ethol ei Phrif Weinidog cyntaf, a'i datgan yn Weriniaeth Vanuatu. Ystyr Vanuatu yw 'Gwlad sy'n sefyll ar ei thraed'.

Erbyn heddiw:



- Bislama, Ffrangeg a Saesneg yw'r prif ieithoedd swyddogol – bu cymaint â 113 o ieithoedd yn cael eu siarad yma.
- Nid yw addysg yn orfodol nac am ddim. Dim ond eu plentyn cyntafanedig y gall y rhan fwyaf o deuluoedd fforddio ei addysgu, a bechgyn sy'n cael y flaenoriaeth.
- Mae iechyd merched a phlant ymhlith blaenoriaethau cenedlaethol allweddol y llywodraeth.
- Mae diffyg maeth yn broblem gynyddol sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o farwolaethau mewn plant o dan 5 oed. Mae cyflwyno bwydydd gorllewinol wedi eu prosesu wedi gwaethygu'r sefyllfa.
- Mae trais corfforol a/neu rywiol yn effeithio ar tua 60% o ferched
- Mae prinder dŵr yfed digonol yn bryder mawr. Mewn ardaloedd gwledig gall pobl orfod cerdded am hyd at awr i gael dŵr.

*Llinos Dafis*

## *Cenn@d*



Cenn@d

MAWRTH 3 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 1

**‘Cennad dyn yw bod yn frawd’**

**Dyma ddilema. Mae'r Golygydd wedi gofyn am ddarn i'r cyhoeddiad newydd. Darn sy'n sôn rhywbeth am Waldo Williams. Rhoes wybod mai teitl y cyhoeddiad yw *Cenn@d*. Ac mae un llinell o waith y bardd mawr yn mynnu gwthio i frig y meddwl: ‘Cennad dyn yw bod yn frawd’.**

Bydd y darllenwyr yn cofio mai llinell ganol, pennill canol cerdd enwog Waldo i'r Tangnefeddwyr yw hi. Mae'n gymar i'r llinell ‘Golud Duw yw'r anwel fyd’. A'r ddau beth hyn gyda'i gilydd, sef ‘bod yn frawd’ a'r ‘anwel fyd’, yw'r ‘ddeuberl drud’ a roddodd ‘angel y cartrefi tlawd’ i'w rieni, yn ôl y gerdd.

Mae grym ychwanegol i'r gân hon oddi ar i Eric Jones gyfansoddi miwsig mor berffaith i'w chario hi, a bellach mae'n rhan o *repertoire* bob côr drwy Gymru, wedwn i. (Ac O! brysied y dydd y cawn ni glywed y corau hyn tu hwnt i ffenestri bach y Zoom mewn neuaddau ar hyd a lled y wlad … clywed gwich sedd y piano, clywed baton yr arweinydd yn taro'r stand ar ddamwain, clywed anadl y cantorion a chlywed cymeradwyo ein gilydd.)

Gyda'r teitl yn ein hannog i ‘wneud heddwch’ (oherwydd mae grym gweithredol i ‘dangnefedd’, onid oes?), mae'r gerdd yn cynnig y cyfle perffaith i roi hysbýs wrth basio am yr Academi Heddwch a ddod, gobeithio, ag ychydig o newyddion da i'r hen ddyddiau dyrys hyn. Daeth yr Academi i fod ar y 21ain o fis Medi llynedd, Diwrnod Heddwch y Byd, ac erbyn Dydd Gŵyl Dewi eleni byddwn, gobeithio, wedi hysbysebu am ei chydlynydd cyntaf. Y nod yw tynnu holl brifysgolion Cymru ynghyd i weithio er mwyn gweld Cymru'n gwneud cyfraniad i ymchwil ac ymarfer heddwch, gweld ffocws ar heddwch ym mholisiau perthnasol Llywodraeth Cymru a gweld y cyhoedd yn ymddiddori'n fyw mewn materion heddwch yng Nghymru a thu hwnt. Yn syml, ailgodi ‘heddwch’, y gair a'r gwerth, yn ein cymdeithas.

yn ein cynnwys ni, a bod ‘bod yn chwaer’ yn llawn gystal peth â ‘bod yn frawd’. Mae'n amhosib credu fel arall, h.y. credu nad yw Waldo fan hyn yn gweld y ‘dyn’ a'r ‘brawd’ yn golygu pawb. Mae e'n defnyddio'r geiriau fel llaw-fer, ac mae'n gwneud hynny yn unol â thraddodiad y canrifoedd. Nid collfarnu Waldo a wnaf gan hyn. Dim o gwbl. Dim ond tynnu sylw at beth mor gynnil o bwerus yw iaith. Mae ei geirfa – a'i chystrawen hyd yn oed – yn ddrych i werthoedd ei chymdeithas.

Caption

Dechrau mis Mawrth, cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o *Cenn@d*, papur wythnosol crefyddol newydd yn y Gymraeg. Mae’n fenter ar y cyd rhwng Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac yn golygu bod *Y Goleuad* a *Seren Cymru* wedi uno i greu un cyhoeddiad newydd, lliwgar a bywiog.

Bydd ar gael yn ddigidol, yn rhad ac am ddim i bawb, ar wefan cennad.cymru ac ar wefannau’r ddau enwad, a gellir trefnu i gael copi print os nad oes gennych fynediad i’r we. Bydd *Cenn@d* yn cynnwys newyddion o’r eglwysi, myfyrdodau a deunydd defosiynol, lle i drafod a gofyn cwestiynau perthnasol i Gristnogaeth yng Nghymru heddiw, yn ogystal â gwybodaeth am waith mudiadau dyngarol fel Cymorth Cristnogol.

Y tîm golygyddol yw’r Parchedigion Aled Davies, Huw Powell-Davies a Watcyn James, ac mae croeso i chi anfon unrhyw sylwadau neu gyfraniadau at watcyn@cennad.cymru. Gallwch hefyd gael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy ddilyn *Cenn@d* ar gyfryngau cymdeithasol: Facebook a Trydar @CennadCymru, yn ogystal â’r wefan: www.cennad.cymru.

Os hoffech drefnu i gael copi digidol o Cenn@d drwy e-bost bob wythnos, neu gael copi print drwy’r post, cysylltwch ag Ysgrifennydd eich eglwys.

# Cymdeithas Lenyddol y Garn

Cynhaliwyd cyfarfodydd misol y Gymdeithas yn rheolaidd drwy'r Zoom dan gadeiryddiaeth yr Athro Gruffydd Aled Williams.

Yng nghyfarfod Ionawr 12, rhoddodd Dr Gareth Bonello o Gaerdydd gyflwyniad diddorol a gwybodus yn seiliedig ar ei waith ymchwil trwyadl i'r hyn sy'n gyffredin heddiw rhwng cerddoriaeth y Cymry a phobl Khasia yng Ngogledd-ddwyrain India o ganlyniad i bresenoldeb y cenhadon yno rhwng 1840 a 1969, cyfnod y mae perygl i'r hanes amdano fynd yn angof.

Mrs Hazel Walford Davies ddaeth i gyfarfod y Gymdeithas ar Chwefror 19eg i rannu a manylu ar yr wybodaeth newydd, ddadlennol efallai, sydd wedi ei datgelu yn y bywgraffiad o Syr Owen M Edwards a gyhoeddwyd ganddi y llynedd. Ei bwriad, meddai, yw dod â'r dyn yn nes aton ni, ei dynnu allan o'r ffrâm oedd o'i gylch ar walydd ysgolion cynradd ledled Cymru ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

Llio Penri gyflwynodd y gantores Siân James yng nghyfarfod Mawrth 19eg. Er na allai Siân gynnwys ei thelyn yn y cyflwyniad oherwydd yr amgylchiadau, llwyddodd i'n swyno â'i dull anghymharol o gyfleu naws, teimlad ac ystyr geiriau i'w chyfeiliant hyfedrus ar y piano. Rhoddodd inni hefyd gip amheuthun ar ei pherthynas hi a'i mam wrth ddarllen ei chyfraniad i'r gyfrol *O! Mam Bach*, a'r cyfan yn cael ei draddodi yn acenion mwynion Maldwyn.

Wrth gloi'r cyfarfod, atgoffodd Cadeirydd y Gymdeithas, Gruffydd Aled Williams, ni fod tymor y Gymdeithas wedi dod i ben am eleni. Mae e a'i bwyllgor yn haeddu ein diolch cynhesaf am gyflwyno rhaglen mor ddymunol a diddorol er gwaethaf y pandemig bondigrybwyll.



# Cofio Gaenor Hall

Yn Bryngwyn Isaf, Dole, y ganwyd Gaenor, ar 8 Mawrth 1932. Symudodd gyda'i rhieni i fyw yn Birmingham yn fuan wedyn a dod yn ôl ar y trên gyda'i Mam-gu a'i doli glwt (yn ôl ei thystiolaeth hi ei hunan) pan oedd hi'n dair oed i fyw yn Felingyffin.

Cafodd fagwraeth wreiddiedig a diwylliedig gyda'i thad-cu a'i mam-gu a'i modryb Glenys, ar fferm a oedd hefyd yn felin i falu llafuriau ffermydd y gymdogaeth. Mewn sgwrs ar dâp mae'n disgrifio fel y byddai ei thad-cu ar ddyddiau malu wedi ei orchuddio gan lwch gwyn y mâl. Pan ddaeth hi yn hŷn byddai hithau'n rhedeg negeseuon drosto – mynd i lawr i weithdy'r Dole, lle roedd ffôn, i roi gwybod i'r ffermwyr bod eu blawd yn barod, neu gerdded y filltir i siop Llandre i nôl hanner chwarter o siag A1!

Mae dewis o ddwy ffordd i fynd o'r Felin, naill ai ar hyd y lôn i'r ffordd fawr neu ar hyd llwybr dros y nant a thrwy'r cae allan i ffordd y Dole. Yr ail fyddai Gaenor wastad yn ei dewis, er mwyn cael sgwrs â phobl y Dole – roedd llawer ohonyn nhw yn perthyn iddi, a'r rhan fwyaf yn hen; doedd dim plant yn y Dole yn y dyddiau cyn y rhyfel, meddai hi.

Cafodd ei magu ynghanol canu. Fe'i ganwyd i deulu neilltuol o gerddorol; etifeddodd gerddoriaeth drwy ei genynnau ac o'i hamgylchfyd – amgylchfyd lle roedd parch aruthrol hefyd at iaith a geiriau, boed yn yr emynau a'r trafodaethau yn y capel neu ymhlith y beirdd a'r ymgomwyr diwylliedig ar aelwydydd y gymdogaeth. Dyna'r ddau edefyn a esgorodd ar ei hangerdd ynghylch Cerdd Dant: gwneud i eiriau ganu ac i gerddoriaeth siarad, a fu'n genhadaeth iddi gydol ei bywyd.

Yn ystod ei hieuenctid roedd mynd mawr ar ganu penillion yn y Gymdeithas Awen a Hwyl yng nghapel Bethlehem. I'w hewythr Glyn, brawd ei mam, yr oedd y diolch am hynny, meddai hi. Yn ystod y Rhyfel Mawr roedd e wedi dod i nabod Cymry ifainc oedd yn hyddysg yn y gelfyddyd o ganu gyda'r tannau ac wedi cael ei swyno ganddyn nhw. Ar ôl y rhyfel trosglwyddodd yntau ei frwdfrydedd i aelodau Awen a Hwyl, a diolch i lyfrau o osodiadau parod, fel y *Tant Aur*, dechreuodd pobl Llandre ganu cerdd dant – i gyfeiliant yr harmonium!

Cafodd Gaenor ei hannog yn ifanc i ddeall a dysgu'r gelfyddyd; ym Mhrifwyl Dolgellau yn 1949 daeth 'Gaenor Evans, 17 oed, Llandre, Ceredigion' yn ail yn y gystadleuaeth Gosod Ysgrifenedig. Tua'r un adeg cafwyd telyn i'r ardal, drwy haelioni Mrs Latimer Morgan, Isfryn, a Gaenor oedd y person amlwg i'w hymddiried iddi. Noson i'w chofio oedd y digwyddiad a drefnwyd yn Isfryn i groesawu'r delyn, gyda Thelynores Maldwyn a Thelynores Eryri yn cyrraedd Llandre ar y trên. Dyna'r tro cyntaf i fi weld a chlywed telyn.

Ar ddiwedd ei chyfnodau yn Ysgol Rhydypennau ac Ysgol Ardwyn aeth Gaenor ymlaen i Goleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth a graddio mewn Cerddoriaeth, gan arbenigo mewn piano, llais a thelyn. Un haf aeth i weithio yng ngwersyll gwyliau Sunnyvale yn y Rhyl a chyfarfod â Sais ifanc o'r enw Eric Hall, a chael ei chyfareddu gan y sglein oedd ar ei esgidiau! Dan ei hanogaeth a'i harweiniad disyfl hi trodd y Sais ifanc yn Gymro. Priododd y ddau yn 1954.

Bu Gaenor yn athrawes mewn ysgolion ym Merthyr Tudful, Caerwrangon, a'r Gwendraeth, cyn symud yn ôl i Aberystwyth yn 1959 pan gafodd Eric swydd yn Adran Addysg y Brifysgol. Yn ddiweddarach symudodd y teulu bach o bedwar i fyw ym Minafon, Dole, hen gartref ei hewythr Glyn, a thyfu'n deulu o bump. Ymdaflodd Gaenor i'r gwaith o fagu Heledd, Catrin a Mabli – eu tair yn gerddorion dawnus – a pharhau â'i gweithgarwch er hyrwyddo Cerdd Dant yr un pryd.

Yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn 1962 cyfansoddodd gerddoriaeth a'i chwarae ar y delyn yn gyfeiliant i adroddiad Vernon Jones o Gwymp Caersalem, T Gwynn Jones – a dod yn fuddugol. Oes recordiad yn rhywle, tybed?

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd sefydlodd Gôr Garn Maelgwyn, côr o wragedd a ganai gerdd dant yn bennaf. Yng ngeiriau un o'r aelodau: 'Caem ein trwytho yn niwylliant ein gwlad, a'n tywys ganddi i adnabyddiaeth o rai o gyfansoddiadau mwyaf angerddol y ffydd a hanes ein gwlad.' Ei dull dihafal o fynnu sylw a gwerthfawrogiad i'r geiriau sydd wedi aros yng nghof aelodau eraill hefyd.

Cyflawnodd swyddi yn ei chymdeithas yn ogystal: bu'n Llywydd ei changen leol o Ferched y Wawr, ac yn Ysgrifennydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Yng Nghapel y Garn bu'n organydd, yn Gadeirydd Cymdeithas y Chwiorydd ac yn Athrawes Dosbarth Oedolion yr Ysgol Sul. Braint oedd cael bod yn aelod o'r dosbarth hwnnw, gyda'i pharatoi trwyadl ar gyfer pob Sul yn esgor ar drafodaethau bywiog a chwilgar.

Bu ym Mhenweddig nes ei hymddeoliad yn 1989. Yn ei chyfnod yno roedd canlyniadau Lefel O, TGAU a Safon Uwch yr ysgol mewn Cerddoriaeth yn rheolaidd ymysg y gorau yng Nghymru, yn ôl Alan Wynne Jones, Trefnydd Cerdd y Sir ar y pryd. Bu dathlu aruthrol pan enillodd Côr Cymysg Ysgol Penweddig y brif wobr yng nghategori Corau Ysgolion Uwchradd yr Ŵyl Gerdd Genedlaethol i Ieuenctid yn y Festival Hall yn Llundain a chael mynd ymlaen wedyn i berfformio yn y 'Prom i Ysgolion' yn Neuadd Albert.



Ar ôl ymddeol o Benweddig ymunodd â Dosbarth Cerdd Dafod Vernon Jones yn Rhydypennau, a'r un fath â chyda phopeth arall yr ymgymerodd ag ef, ymdaflodd iddo. 'Hi fyddai'r cyntaf i ddarllen ei gwaith cartref ac roedd hi'n barod iawn i gael ei chywiro os oedd angen!' meddai Vernon amdani. Cafodd fod yn aelod o Dîm Ymryson y Beirdd y dosbarth yn Eisteddfod Pantyfedwen ym Mhontrhydfendigaid.

Wrth lunio hyn o werthfawrogiad alla i ddim peidio teimlo diolchgarwch dwys, o sylweddoli mor ffodus fu hi i ni, sydd wedi elwa cymaint oddi wrth bresenoldeb y wraig ddawnus ac urddasol yma yn ein plith a chofio'i chymwynasgarwch a'i pharodrwydd i rannu ei doniau, bod y ferch fach deirblwydd honno a'i doli glwt wedi dod yn ôl gyda'i Mam-gu ar y trên o Birmingham i'r Felin.

Gallwn ddiolch hefyd ei bod hi wedi goroesi wedi hynny, o gofio un o'i hanesion – yn ei geiriau hi ei hunan:

'Un tro dw i'n cofio sigo fy mhigwrn yn ddrwg, ond doedd dim sôn am fynd at y doctor er mod i'n eithaf cloff. "Rhaid i ti fynd bob dydd a'i ddal e dan y cafn gwyllt," meddai Dad-cu. I'r cafn gwyllt roedd dŵr oer o'r pynfarch yn arllwys ar ruthr cyn disgyn i lwyau rhod y felin i beri i honno droi. Roedd y cafn gwyllt yn dipyn uwch na phen uchaf y rhod ac i gyrraedd ato roedd rhaid mynd y tu ôl i'r Felin a dringo ysgol nes mod i ar yr un lefel ag ef. Wedyn roedd rhaid i fi ddal fy nhroed o dan y dŵr gwyllt oedd yn arllwys o'r cafn. Roedd hi'n broses boenus tu hwnt. Fe ddaeth y droed yn iawn mhen amser. Dwn i ddim ai i'r dŵr roedd y diolch neu beidio, ond fe wn y byddai Iechyd a Diogelwch yn arswydo rhag y fath driniaeth heddiw!'

Gallaf weld y wên befriog yn ei llygaid a'i chlywed yn ei llais wrth ddyfynnu ei geiriau.

*Llinos Dafis*

Lluniais y delyneg ‘Bwriad’ ar gyfer Eisteddfod Gadeiriol (Rithiol) Caerdydd, a gynhaliwyd ym mis Ionawr eleni. Mae’r gerdd yn cyfeirio at fy mwriad i ymweld â chyfaill oedd yn annwyl iawn imi, y Chwaer Lorna Francis. Yn anffodus bu farw cyn imi lwyddo i gyflawni’r bwriad. Mae’r gerdd hefyd yn disgrifio’r tro diwethaf inni gyfarfod yn yr orsaf drenau yn Aberystwyth pryd y cawsom baned o goffi yn Wetherspoon’s.

## Bwriad

Dyna oedd y nod ers tro:
galw heibio,
gafael yn dy ddwylo,
cofleidio’r ’sgwyddau
ac ailgydio ym mwrlwm y sgwrs.

Bu’n sawl blwyddyn
ers inni gyfarfod y bore Sadwrn hwnnw
ger yr orsaf drenau.
Paned o goffi yn Wetherspoon’s
cyn i mi dy hebrwng
ar dy daith,
a thystio i garedigrwydd dy gyd-deithwyr
yn gosod y portmanto’n
ddiogel uwch dy ben.

Rhywsut roedd pellter
o gan milltir yn ormod
a’r ewyllys yn gwrthod
pontio’r bwriad a’r gwneud.
Fel berf yn gwrthod rhedeg,
haul yn gwrthod cynhesu
a gwynt yn gwrthod chwythu.
Yn ofer fu’r bwriad
a bellach, fel tithau,
nid yw’n ddim.

O bryd i’w gilydd,
fe ddaw rhyw atgof ataf
fel awel o ’nunlle,
ac am ychydig,
caf oedi yng nghynhesrwydd
y sgyrsiau hynny na fu.

*Judith Morris*

## Sul y Mamau, 2021

Mae pedwerydd Sul y Grawys wedi ei neilltuo yn Sul y Mamau er mwyn sbarduno pobl i droi eu meddyliau at eu mamau mewn diolchgarwch a gwerthfawrogiad. Mae bod yn fam yn fraint, braint rwy’n diolch amdani bob dydd o’r flwyddyn.

Wrth feddwl am fy ‘mamdod’ i, os caf i fathu’r gair, mae yna un fam sy’n fythol bresennol yn fy meddyliau, a honno yw Mair, mam Iesu Grist, Mair Forwyn, y Fam Fendigaid, y ferch ifanc a gafodd y fraint o fod yn fam i’r Gwaredwr – ac a dalodd yn ddrud am y fraint honno. Bu yno Was Dioddefus, do, a bu hefyd Fam Ddioddefus.

Anodd fu ei thaith o’r dechrau – ei gwrthod yn y llety, esgor ar ei baban yn y beudy llwm, ffoi i’r Aifft, colli ei mab yn y Deml, cydgerdded ag ef ar hyd y llwybr anodd roedd e wedi ei ddewis, ac ar ddiwedd y cyfan bod wrth droed y Groes yn dyst o’i artaith a derbyn ei gorff yn ôl i’w breichiau.

Mae e’n fy arswydo, yn fy mywyd cysurus, i geisio dychmygu ei gwewyr. Mae Mair yn symbol oesol grymus o’r hyn y gall bod yn Fam ei olygu. Onid oes yna famau drwy’r oesoedd sydd wedi wynebu erchyllterau gyda’u plant ac wedi cloddio i ddyfnderoedd eu bod i ddarganfod ffynonellau o nerth anhunanol a chariad er mwyn sefyll gyda nhw yn eu trallod a’u dioddefaint?

Felly, wrth dalu dyledus barch i famau a llysfamau a mamau maeth gwerthfawr, yn wir amhrisiadwy, ein cymdeithas, ac wrth gofio’n dra diolchgar am ofal ac arweiniad cariadus fy mam i fy hunan, mae Mair, y Fam Fendigaid, y Fam Ddioddefus, yn fythol bresennol.

*Llinos Dafis*



*Y Forwyn Fair a'i Phlentyn* (15eg ganrif), gan Martin Schongauer, o'r Almaen



*Morwyn y Liliäu* (1899), gan William Adolphe Bouguereau
(Llun: Wikipedia)



*Pietà (*1498–9), cerflun gan Michelangelo, yn y Fatican
(Llun: Wikipedia)

## Estyn 'dwylo dros y môr' – gefeillio tai bach

Bydd gan rai ohonom storïau cofiadwy am ymweld â'r Eisteddfod yn y gorffennol pell pan nad oedd y tai bach a'r cyfleusterau'n plesio'r eisteddfodwyr na thrigolion y maes carafannau – yn enwedig os oedd hi'n wlyb dan draed!

Dychmygwch fyw mewn pentre, neu fod mewn ysgol neu dŷ, heb unrhyw system garthffosiaeth o unrhyw fath o gwbl erioed.

Peidiwch ag oedi, da chi, i feddwl am ddiffyg hylendid, am ddrewdod, am wybed a haint. Byddai amgylchiadau byw o'r fath yn troi arnoch ac yn codi cyfog, mae'n siŵr.

Ond mae yna filiynau o deuluoedd a phlant sy'n wynebu'r union sefyllfa yna ac yn gorfod ymgodymu â'r heintiau ac afiechydon ddaw yn absenoldeb dŵr glân a system i drin carthion.

Tua diwedd yr hydref, mewn gwers ysgol Sul, roeddem yn adrodd yr hanes am 'hatling y weddw dlawd' a'r modd y medrai'r ychydig fod yn offrwm sylweddol. Ac fe ddechreuwyd sôn wrth y plant, 'Beth am gynilo ceiniogau mewn potel i weld faint allwn ni ei gasglu?'

Mewn byr o dro cyrhaeddodd blwch yn llawn ceiniogau gan rywun oedd wedi bod yn casglu'r ceiniogau dros fisoedd. Ernes o gasgliad llawer mwy!

A buan y dechreuodd pobl eraill ofyn a allent gyfrannu hefyd.


Yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth anfonwyd £447.85, sef rhoddion o'r gwahanol gapeli / ysgolion Sul at fudiad Toilet Twinning – cyfraniad hael a theilwng iawn.

### Syniad

Syniad syml sydd yn sail i weithgarwch y mudiad.

Mae llawer o bentrefi a dinasoedd yn gefeillio â chymunedau mewn gwlad arall. Mae'n ffordd o fagu perthynas, o ddysgu am fywyd mewn lle dieithr, ac o ledu gorwelion. Felly, mewn modd tebyg, mae mudiad Toilet Twinning yn defnyddio darparu cyfleusterau syml i gymuned neu i gartref mewn cymuned dlawd fel ffordd o fagu perthynas, i ddysgu am fywyd, i ledu gorwelion.

Gall £60 ddarparu dŵr glân a thŷ bach ar gyfer teuluoedd tlotaf y byd. Gall £240 ddarparu bloc o dai bach syml ar gyfer ysgol.




O noddi'r fath ddatblygiad, fe gaiff y rhoddwyr dystysgrif sy'n 'gefeillio' eu tai bach â chartref/ pentre/ capel neu ysgol yn rhai o wledydd mwyaf anghenus y byd. A dyna fu ein braint ninnau.

O'r hatling tyfodd rhodd werthfawr. (Os hoffech chi wybod mwy am waith Toilet Twinning, ewch i https://www.toilettwinning.org/cymraeg/)

Diolch o galon i bob un ohonoch am eich cyfraniadau a'ch rhoddion. Yn ddi-os, fe fydd yna deulu neu blant ysgol a fydd, o fedru defnyddio tŷ bach glân, yn gwerthfawrogi'r urddas a'r gwerth a roddwyd arnynt drwy roddion o'r fath.

Diolch,
*Watcyn James*

## Clonc a Phaned

Mae'r cyfarfodydd Clonc a Phaned ar foreau Mercher wedi tyfu'n arfer bellach a'u cynnwys yn amrywiol.

Ar 13 Ionawr cafwyd trafodaeth ddifyr, dan arweiniad ein Bugail, ar ein hatgofion cynharaf, a phob un ohonom yn cael cyfle i ddweud ein dweud; fore 20 Ionawr, Dilys Jones gyflwynodd hanes y bardd Dafydd Jones, Ffair-rhos, a Thirwedd Tregaron i ni; ac ar y 27ain Eddie Jenkins fu'n ein herio gyda chwis am bobl a phethau yr hen Sir Dyfed.

Ar 3 Chwefror, atgoffodd Ina Tudno Williams ni, drwy gyfrwng stori, o bwysigrwydd trin pawb â pharch, pa mor wahanol bynnag ydyn nhw o ran lliw eu crwyn neu nodweddion eraill; ar 10 Chwefror cawsom atgofion difyr Myfanwy Rowlands, Rehoboth, am ei magwraeth yn ardal ddiwydiannol y Creunant, Cwm Nedd; ar y 17fed cyflwynodd Dilys Jones ragor o hanes swynol beirdd Tirwedd Tregaron, y tro yma W J Gruffydd a John Roderick Rees oedd yn cael ei sylw, gyda John Jones yn darllen eu geiriau; ac ar 24 Chwefror sgwrsio ymhlith ein gilydd a rhannu atgofion (a chyfrinachau!) am brofiadau tra'n teithio roddodd wên ar ein hwynebau.

Ar Fawrth 3 rhannodd y Parch John Tudno Williams hanes ei hen hen daid â ni, sef Robert Hughes, Uwchlaw'r ffynnon (1811–1892), a oedd yn weinidog ac yn arlunydd mewn olew (o bwysigrwydd mawr, yn ôl Peter Lord); wythnos yn ddiweddarach, 10 Mawrth, bu Alan Wynne Jones, gyda help Ann, yn cofio am ei deithiau cerddorol hynod lwyddiannus ar gyfandir Ewrop yn arwain aelodau cerddorfeydd ieuenctid Ceredigion; ac ar 17 Mawrth cawsom y fraint o glywed yr hanes y tu ôl i rai o'r ffotograffau yn y gyfrol *Rhwng Teifi, Dyfi a'r Don* sydd newydd ymddangos o'r wasg, ac sy'n cynnwys barddoniaeth gan feirdd o Geredigion dan olygyddiaeth Idris Reynolds ochr yn ochr â ffotograffau gan Iestyn.

Daeth tymor y Clonc i ben ar Fawrth 24ain, gyda chyflwyniad difyr iawn gan Gruffydd Aled Williams ar Salmau Cân, Edmwnd Prys.

## Robert Hughes, Uwchlaw'r ffynnon (1811–1892)

Yn dilyn fy sgwrs ddiweddar am fy hen hen daid, Robert Hughes, Uwchlaw'r ffynnon, Llanaelhaearn, yn 'Paned a Chlonc' yr ofalaeth, carwn ehangu ychydig ar yr hyn a ddywedais amdano.

Pan ofynnwyd imi pryd a pham y dechreuodd ddarlunio mewn olew, meddyliais y byddai gan y rhai a holodd ddiddordeb mewn clywed beth a ddywedir yn ei *Hunangofiant* am hynny. Mewn cyfnod cynharach yn ei fywyd bu'n fardd lled enwog yn ei gynefin ac arddelai'r ffugenw Robin Goch. Ond, yn hanner cant oed, dywedir iddo droi ei fryd at arlunio, ac mewn amser creodd baentiadau mewn olew, llawer ohonynt yn bortreadau o'i gyfoeswyr, bonedd a gwrêng, cryn gant ohonynt. Yn ogystal, lluniodd dirluniau o'r ardal, ac mae dau ohonynt yn fy meddiant i. Fel canlyniad, honnir iddo ganu'n iach i'r awen farddonol. Mewn rhagarweiniad i'r *Hunangofiant* dywed nai iddo: 'Peth lled hynod gweled hen weinidog, oedd yn hen ffarmwr digon gwledig yr olwg, yn byw ar lechwedd mynyddoedd yr Eifl, yn troi yn ddarlunydd o hono ei hun, yn llwyddo i wneyd *paintings* sydd wedi eu gosod i fyny yn rhai o brif balasau y wlad.'

Soniais hefyd am ei deithiau gydag un o bregethwyr mawr y cyfnod, y Parchedig John Jones, Tal-y-sarn, a hynny i bob cornel o Gymru. Cofnodir ar ddiwedd y gyfrol bob un man y pregethodd y gwron hwnnw rhwng mis Medi a mis Hydref 1846, ynghyd â thestunau ei bregethau. Tua diwedd y daith bu'n traethu yn Pen-llwyn, Aberystwyth a Pen-y-garn. Holwyd y bore o'r blaen pa gyfrwng a ddefnyddient ar gyfer eu teithiau. Yn anffodus, nid yw'r *Hunangofiant* ei hun yn cofnodi'r hanes hwn yn llawn, ac felly ni fedrir ond dyfalu mai ar gefn ceffylau neu, efallai, mewn troliau wedi eu tynnu gan feirch y byddent yn teithio.

Fodd bynnag, ceir ambell i hanesyn am brofiadau Robert Hughes wrth iddo geisio teithio y tu hwnt i'w gynefin i bregethu. Fel hyn mae'n cofnodi un enghraifft o hynny:




Llun: Casgliad John Thomas, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

‘Yn yr amser hwnw [sef ar ddechrau ei yrfa fel pregethwr yn 1838], byddwn dan yr angenrheidrwydd yn fynych i fyned i’m teithiau Sabbothol ar fy nhraed, oherwydd y byddai raid cael y ceffylau i weithio ar y tir. Pe buaswn yn myned am Sabbath i Fangor, yr unig gyfleusdra oedd y *Goach Fawr*, a *fare* reolaidd hono o Bwllheli i Fangor oedd 6s. Y gydnabyddiaeth yn y tri chapel, sef Caerhun, y Graig, a Bangor, fyddai 4s.6c, ac felly ni byddai yn ddigon i dalu am fy nghario. Ac o dan yr amgylchiadau, nid oedd dim ond dau droed am dani yn aml.’

Wrth gwrs, doedd cerdded pellteroedd ddim yn ddieithr iddo gan iddo ryw wyth mlynedd ynghynt gyrchu gwartheg o Benllŷn i farchnad Brentwood yn Essex, taith o dair wythnos!

*John Tudno Williams*



Swydd a dull tywysydd dillyn — a'n denodd
I diwnio pob nodyn;
Hwyl a nerth roes Alan Wyn
A'i rym wrth ledio'r emyn
D Jones

A'i fatwn, bu hwn yn hau — hyd y cwrdd
Nodau cân yn ddiliau;
Hybu'r hwyl i hir barhau
A'n bywiog annog ninnau
D Jones

Swydd a dull tywysydd dillyn — a'n denodd
I diwnio pob nodyn;
Hwyl a nerth roes Alan Wyn
A'i rym wrth ledio'r emyn.

A'i fatwn, bu hwn yn hau — hyd y cwrdd
Nodau cân yn ddiliau;
Hybu'r hwyl i hir barhau
A'n bywiog annog ninnau.

Diolch i Alan Wynne Jones am rannu'r englynion yma a gyflwynwyd iddo gan y Prifardd Dafydd Jones, Ffair-rhos, ar ôl iddo fod yn arwain Cymanfa Ganu Bedyddwyr Gogledd Ceredigion ar 30 Ebrill 1978


BEDYDDWYR GOGLEDD CEREDIGION

Cynhelir
Y GYMANFA GANU
DYDD SUL, EBRILL 30ain, 1978
yn y TABERNACL, TALYBONT,
DYFED

*Arweinydd:*
Mr. ALAN WYNNE JONES, M.D., B.A., M.Ed., Bow Street

*Organyddion:*
Mrs. S. M. WILLIAMS: Mr. JOHN GARNON
*Cyfarfod y prynhawn am 2.30 o'r gloch*
*Llywydd:* Mrs. ELIZABETH EVANS, Talybont
*Cyfarfod yr hwyr am 6 o'r gloch*
*Llywydd:* Parch. RODGER JONES

*Swyddogion y Pwyllgor:*
*Trysorydd:* Mr. DAVID JENKINS, Y.H., Aberystwyth
*Ysgrifennydd:* Mr. W. J. JONES, Aberystwyth

PRIS Y RHAGLEN — 10c

Argraffwyd gan y Cambrian News (Aberystwyth) Cyf.

## Wythnos Cymorth Cristnogol, 10–16 Mai 2021

# Sicrhau cyfiawnder i bobl fel Rose

Cyfiawnder hinsawdd. Dau air sy wedi dod i olygu llawer iawn i Gymorth Cristnogol. Ac er bod cymaint o bethau eraill wedi diflannu o sylw'r byd yn ystod blwyddyn gythryblus y Cofid, nid yw cyfiawnder hinsawdd wedi diflannu o gwbl.



Mae'r argyfwng mor fawr ag erioed.

Yn enwedig i Rose Katanu Jonathon o Kitiu, Kenya. Dim ond chydig o ddŵr mae hi eisiau. Cyflenwad dibynadwy ac agos i'w chartref. Nid yw'n ormod i'w ofyn.

Ac eto, nid yw ar gael iddi. Rhaid iddi gerdded am oriau bob dydd er mwyn cario'r hyn y mae darllenwyr yr erthygl hon yn ei gymryd yn ganiataol. I ni, dim ond troi'r tap sydd ei angen. Iddi hi, mae taith hir, beryglus yn ei hwynebu bob un dydd.

Er mwyn Rose, ei chymuned a thrigolion Kenya a sawl gwlad dlawd arall, mae Cymorth Cristnogol yn gofyn am eich cefnogaeth yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

**Eich cefnogaeth hanfodol chi**

Trwy gefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol, gallwch helpu mwy o bobl debyg iddi, pobl fel Rose a'r miliynau eraill o amgylch y byd sy'n gwybod yn iawn beth yw cyfiawnder hinsawdd. Gallai £6 brynu bag o sment sy'n angenrheidiol i godi argae. Gallai £27 brynu berfa, offer cwbl allweddol i'r gwaith. A gallai £335 hyfforddi pwyllgor argae gan roi'r sgiliau iddynt gynnal a chadw'r argae am flynyddoedd i ddod.

Mae llawer mwy o wybodaeth am Wythnos Cymorth Cristnogol ar gael ar wefan y mudiad, neu gallwch ffonio'r tîm yn y swyddfa yng Nghaerdydd ar 029 2084 4646 neu drwy e-bostio cymru@cymorth-cristnogol.org.


**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Marian Beech Hughes, y Garn

Is-gadeirydd: Mrs Ina Tudno Williams, Capel Seion

Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **13 Mehefin** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com